

At: Cadeirydd ac Aelodau Cyngor Sir

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Mai
2022

Deialu 01824706141
Union:

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CYNGOR SIR** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 24 MAI 2022 yn YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

Penodi aelodau dros dro i Gyngorau Cymuned

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AELODAETH

Cynghorwyr

Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Kelly Clewett
Ann Davies
Karen Edwards
Pauline Edwards
Gwyneth Ellis
James Elson
Chris Evans
Hugh Evans
Justine Evans
Bobby Feeley
Gill German

Paul Keddie
Diane King
Geraint Lloyd-Williams
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Terry Mendies
Raj Metri
Win Mullen-James
Merfyn Parry
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
Peter Scott
Rhys Thomas

Jon Harland
Elen Heaton
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Hogg
Carol Holliday
Alan Hughes
Hugh Irving
Alan James
Delyth Jones

Andrea Tomlin
Michelle Walker
Cheryl Williams
David Williams
Elfed Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	24 / 05 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Penodi aelodau dros dro i Gyngorau Cymuned

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi aelodau dros dro i Gyngor Cymuned Bodfari a Chyngor Cymuned Cynwyd ('y Gyngorau Cymuned').

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Nid oes gan y ddau Gyngor Cymuned nifer digonol o aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar iddynt allu gweithredu'n gyfreithlon a gwneud penderfyniadau. Mae gan y Cyngor Sir y pŵer i wneud penodiadau dros dro i'r Gyngorau Cymuned i'w galluogi i weithredu'n gyfreithlon.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn awdurdodi gwneud Gorchymyn yn unol ag a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer penodi'r Cyngorydd Chris Evans dros dro i Gyngor Cymuned Bodfari i alluogi'r Cyngor hwnnw i weithredu'n gyfreithlon ar y telerau a nodir yn y gorchymyn drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3.2. Bod y Cyngor yn awdurdodi gwneud Gorchymyn yn unol ag a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer penodi'r Cyngorwyr Gwyneth Ellis ac Alan

Hughes dros dro i Gyngor Cymuned Cynwyd er mwyn galluogi'r Cyngor hwnnw i weithredu'n gyfreithlon ar y telerau a nodir yn y gorchymyn drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu, pan fo cymaint o leoedd gwag ar gyngor tref neu gymuned na all weithredu'n gyfreithlon, y caiff cyngor sir, drwy orchymyn, benodi unigolion i lenwi'r cyfan neu unrhyw rai o'r lleoedd gwag nes bod cynghorwyr eraill yn cael eu hethol neu eu cyfethol a chymryd swydd.
- 4.2. Mae Cyngor Cymuned Bodfari yn cynnwys 7 sedd. Y cworwm i'r Cyngor Cymuned allu gweithredu'n gyfreithlon yw 3.
- 4.3. Yn yr etholiadau llywodraeth leol diweddar, cafwyd 2 enwebiad erbyn diwedd yr enwebiadau. Nid oedd angen gornest o ystyried bod nifer y rhai a enwebwyd yn llai na nifer y seddi oedd ar gael. Etholwyd y ddau enwebai yn briodol. Mae hyn yn golygu bod gan y Cyngor Cymuned aelodaeth o ddau ac felly ni all weithredu na gwneud penderfyniadau yn gyfreithlon.
- 4.4. Cynigir felly bod y Cynghorydd Chris Evans, fel yr aelod lleol, yn cael ei benodi i eistedd ar Gyngor Cymuned Bodfari dros dro er mwyn i'r broses gyfethol fynd yn ei blaen ac y gellir penodi aelodau ychwanegol.
- 4.5. Mae Cyngor Cymuned Cynwyd yn cynnwys 9 sedd. Y cworwm i'r Cyngor Cymuned weithredu'n gyfreithlon yw 3.
- 4.6. Yn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar, dim ond un enwebiad a dderbyniwyd erbyn diwedd yr enwebiadau. Nid oedd angen gornest o ystyried bod nifer y rhai a enwebwyd yn llai na nifer y seddi oedd ar gael. Etholwyd yr un enwebydd yn briodol. Mae hyn yn golygu mai dim ond un aelod sydd gan y Cyngor Cymuned ac ni all weithredu'n gyfreithlon na gwneud penderfyniadau.
- 4.7. Cynigir felly bod y Cynghorwyr Sir Gwyneth Ellis ac Alan Hughes, fel yr aelodau lleol, yn cael eu penodi i eistedd ar Gyngor Cymuned Cynwyd dros dro er mwyn i'r broses o gyfethol fynd yn ei blaen ac y gellir penodi aelodau ychwanegol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r penderfyniad. Bydd yn cynorthwyo gwasanaethau eraill i gael Cyngor Tref sydd yn gweithredu'n gyfreithlon a fydd yn ymgynghori ac yn ymgysylltu mewn perthynas â swyddogaethau penodol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid ymgynghorwyd â'r Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â'r penderfyniad hwn. Ymgynghorwyd â Chlercod y Cyngorau Cymuned a'r aelodau lleol perthnasol ac maent o blaid y dull hwn o weithredu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i'r cyngor sy'n berthnasol â gwneud y penodiad dros dro.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Testun yma Mae risg, os na chaiff y penodiadau hyn eu gwneud, na fydd y Cyngorau Cymuned yn gallu gweithredu'n gyfreithlon i gyfethol aelodau ychwanegol ac i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a91 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Atodiad 1

Gorchymyn a Wneir dan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 Gorchymyn Cyngor Cymuned Bodfari (Penodi Aelod Dros Dro) 2022

Gwneir y GORCHYMYN HWN ar y 24ain diwrnod o Fai 2022 gan Gyngor Sir Ddinbych (“y Cyngor Sir”).

1. GAN FOD nifer y bobl a etholwyd i Gyngor Cymuned Bodfari (‘y Cyngor Cymuned’) yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar (‘y Cyngor Cymuned’) yn ddau, mae angen un Cynghorydd Cymuned ychwanegol i roi’r nifer lleiaf sydd ei angen ar gyfer cworwm.

2. O dan Adran 91 Deddf Llywodraeth Leol 1972, pan fo cymaint o swyddi gwag yn swyddfa’r Cynghorwyr Cymuned, nid yw’r Cyngor Cymuned bellach yn gallu gweithredu, gall y Cyngor Sir, drwy orchymyn, benodi unigolyn neu unigolion ar gyfer y swyddi gwag tan y bydd Cynghorwyr eraill yn cael eu hethol neu eu cyfethol.

FELLY mae’r Cyngor Sir yn unol â’r pwerau a roddwyd iddo gan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn penodi’r unigolyn canlynol fel Aelod o Gyngor Cymuned Boddelwyddan tan fod Cynghorwyr newydd yn cael eu cyfethol er mwyn llenwi’r swyddi gwag a chreu ac ail-sefydlu’r cworwm ar y Cyngor Cymuned yn dilyn ei benodiad nes daw’r Gorchymyn i ben:

- Y Cynghorydd Chris Evans (Cynghorydd ar gyfer Ward Tremeirchion)

Mae SÊL GYFFREDIN Cyngor Sir Ddinbych wedi’i gosod at hyn ym mhresenoldeb:-

..... Llofnodwr Awdurdodedig

Gorchymyn a Wneir dan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 Gorchymyn Cyngor Cymuned Cynwyd (Penodi Aelod Dros Dro) 2022

Gwneir y GORCHYMYN HWN ar y 24ain diwrnod o Fai 2022 gan Gyngor Sir Ddinbych (“y Cyngor Sir”).

1. GAN FOD nifer y bobl a etholwyd i Gyngor Cymuned Cynwyd (‘y Cyngor Cymuned’) yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ddiweddar (‘y Cyngor Cymuned’) yn un, mae angen dau Cyngorydd Cymuned ychwanegol i roi’r nifer lleiaf sydd ei angen ar gyfer cworwm.

2. O dan Adran 91 Deddf Llywodraeth Leol 1972, pan fo cymaint o swyddi gwag yn swyddfa’r Cyngorwyr Cymuned, nid yw’r Cyngor Cymuned bellach yn gallu gweithredu, gall y Cyngor Sir, drwy orchymyn, benodi unigolyn neu unigolion ar gyfer y swyddi gwag tan y bydd Cyngorwyr eraill yn cael eu hethol neu eu cyfethol.

FELLY mae’r Cyngor Sir yn unol â’r pwerau a roddwyd iddo gan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn penodi’r unigolion canlynol fel Aelodau o Gyngor Cymuned Cynwyd tan fod Cyngorwyr newydd yn cael eu cyfethol er mwyn llenwi’r swyddi gwag a chreu ac ail-sefydlu’r cworwm ar y Cyngor Cymuned yn dilyn ei benodiad nes daw’r Gorchymyn i ben:

- Y Cyngorydd Gwyneth Ellis (Cyngorydd ar gyfer Ward Edeirnion)
- Cyngorydd Alan Hughes (Cyngorydd ar gyfer Ward Edeirnion)

Mae SÊL GYFFREDIN Cyngor Sir Ddinbych wedi’i gosod at hyn ym mhresenoldeb:-

..... Llofnodwr Awdurdodedig

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag